



Adroddiad Gweithdy 1

Thema'r gweithdy: Adfywio iaith, mudoledd a thrawsnewid cymunedol

Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles a'r Athro Wilson McLeod

Awst 2017



Gwefan: revitalise.aber.ac.uk



THE UNIVERSITY
of EDINBURGH

E-bost: revitalise@aber.ac.uk



Arts & Humanities
Research Council

Twitter: [@_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)



Crynodeb gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar y trafodaethau a gafwyd fel rhan o weithdy cyntaf y prosiect **Adfywio** a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 22 a 23 Mai 2017. Teitl y gweithdy oedd '**Adfywio iaith, mudoedd a thrawsnewid cymunedol**', a'i nod oedd rhoi'r cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i syniadau ynglyn â chymuned a'u goblygiadau i'n dealltwriaeth o sut i adfywio iaith. Mae'r prif gasgliadau a ddeilliodd o'r gweithdy wedi'u rhestru isod.
- **Dealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o gymuned a gofod (tt.5-7).** Mae dealltwriaethau traddodiadol, tiriogaethol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd iaith yn parhau i feddu ar berthnasedd. Ar yr un pryd, mae angen ystyried sut mae mwy o fudoedd personol ynghyd â newid mewn patrymau o ymwneud cymdeithasol yn effeithio ar arferion iaith pobl. O ganlyniad, mae angen datblygu trafodaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd iaith sy'n cyfuno naratifau tiriogaethol traddodiadol ag ystyriaeth o ddealltwriaeth mwy rhwydweithiol o ofod a chymdeithas.
- **Defnydd iaith a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein (tt.7-8).** Dengys ymchwil mai natur y gynulleidfa darged yw'r ffactor mwyaf un sy'n dylanwadu ar ddewisiadau iaith siaradwyr iaith leiafrifol ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Felly, dylai ymdrechion i hyrwyddo defnydd o ieithoedd lleiafrifol ar y cyfryngau cymdeithasol ganolbwyntio ar greu manau neu sefyllfaoedd lle mae cyfran yr iaith leiafrifol o'r llais yn cael ei chynyddu.
- **Mudo, amlddiwyllianedd ac adfywio iaith (tt.8-11).** Mae ymdrechion i adfywio iaith bellach yn digwydd o fewn cyd-destunau mwyfwy amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach nag o fewn y cyd-destun mwy cyfarwydd o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol. O ganlyniad, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r graddau y mae polisïau a strategaethau sy'n ceisio integreiddio mewn fudwyr yn cyd-redeg â rhai sy'n hyrwyddo adfywio iaith. Yn ogystal, dylai ymdrechion i hyrwyddo caffael ieithoedd lleiafrifol ystyried y cwestiynau pedagogaid sy'n codi wrth gyflwyno'r iaith darged i 'siaradwyr newydd' sydd â chefnidiroedd ieithyddol amrywiol iawn.
- **Agweddau ar adfywio iaith leiafrifol (tt.11-13).** Mae tuedd tuag at 'broffesiynoli' wedi dod yn nodwedd mwyfwy amlwg o ymdrechion adfywio iaith dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwerth i duedd o'r fath, ond gall hefyd arwain at densiynau. Yn ogystal, mae sicrhau cyfranogiad cyhoeddus eang mewn ymdrechion adfywio iaith yn parhau i fod yn hanfodol. Er hynny, mae'r gostyngiad cyffredinol a welwyd mewn sawl lleoliad mewn lefelau o ymwneud dinesig a gwytnwch cyfalaf cymdeithasol yn golygu y bydd parhau i warantu cyfranogiad eang yn debygol o fod yn her.
- **Materion methodolegol (tt.13).** Dylai ymchwil sy'n ceisio asesu hyfywedd iaith fod yn seiliedig ar gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol. Hefyd, o gofio bod arferion cymdeithasol mwyfwy mudol a rhwydweithiol yn dod i'r amlwg, gallai defnyddio dulliau ethnograffig helpu i ddatgelu'r ffactorau sydd bellach yn dylanwadu ar arferion iaith pobl o ddydd i ddydd. Er hynny, dylai gwaith o'r fath gael ei gyfuno ag ymchwil fwy hydredol sy'n ystyried dylanwad posibl rhai adegau neu benderfynu allweddol sy'n codi mewn bywyd, a all fod yn arwyddocaol o safbwynt ieithyddol.